**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS/MS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

28 Ebrill 2022

Annwyl Delyth,

Diolch am eich gohebiaeth ynghylch Amgueddfa Cymru.

Yr wyf yn ymwybodol o'r erthygl yr ydych yn sôn amdani, ac am sylwadau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ar hyn o bryd mae Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Amgueddfa Cymru a chyda'r tîm partneriaeth i gwblhau cylch gorchwyl yr Adolygiad Pwrpasol – byddaf yn gofyn i gydweithwyr rannu'r cylch gorchwyl terfynol gyda chi cyn gynted ag y byddant ar gael. Deallaf fod yr Uned Cyrff Cyhoeddus yn gobeithio cwblhau'r Adolygiad erbyn Hydref 2022.

Ni chafwyd unrhyw adolygiadau mewnol o Amgueddfa Cymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn y cyfnod a amlygwyd yn eich llythyr. Cynhaliwyd ymchwiliad annibynnol yn 2021 mewn ymateb i fater personél cyfrinachol – mae hyn wedi dod i ben ac rwy'n ymwybodol o'r canfyddiadau.

Mae fy swyddogion a minnau'n parhau i weithio'n agos gyda'r Uwch Weithredwr a chyda Bwrdd Amgueddfa Cymru i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Byddwn yn hapus i gwrdd â chi i drafod hynt y mater hwn pe bai hynny'n ddefnyddiol.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AS/MS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.